Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

# SIART LLIF ABSENOLDEB SALWCH

# PWYNTIAU SBARDUNO A GWEITHDREFNAU ADOLYGU

## TRAFODAETH DYCHWELYD I'R GWAITH

- Rhaid ei gynnal ar ôl pob cyfnod o absenoldeb (yn ddelfrydol wyneb yn wyneb)
- Cofnodi ar MyView
- Nodi unrhyw gefnogaeth neu addasiadau sydd eu hangen

*Cyfle i archwilio rhesymau dros absenoldeb, nodi cymorth neu addasiadau rhesymol, a chytuno ar gamau anffurfiol i wella presenoldeb.*

## CYFARFOD CYNORTHWYO'R GWEITHIWR

Yn cael ei sbarduno pan fo gan weithiwr:
- 3 achlysur o absenoldeb neu
- 10 diwrnod gwaith o absenoldeb (pro rata) mewn cyfnod treigl o 12 mis
- Os yw'r rheolwr yn credu bod y gweithiwr yn *agosáu* at sbardun ffurfiol.

*Dylai ddigwydd hyd yn oed os yw'r gweithiwr yn sâl ar hyn o bryd.*

## PWYNTIAU SBARDUNO ABSENOLDEB FFURFIOL

| | |
|---|---|
| **CYFNODAU** | 4 achlysur mewn cyfnod treigl o 12 mis |
| **DIWRNODAU** | 3 wythnos waith arferol, (yn barhaus neu fel arall) dros gyfnod o 12 mis yn olynol |
| **PATRYMAU** | Patrymau 'annerbyniol' arall o absenoldeb<br>*h.y. cyn neu ar ôl gwyliau neu benwythnosau, yr un diwrnod o'r wythnos ac ati.* |

→ **PROSES FFURFIOL**

**RHEOLI ABSENOLDEB YN CAEL EI SBARDUNO**

# CYFARFOD RHEOLI PRESENOLDEB FFURFIOL (CAM CYNTAF)

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

**CYRRAEDD Y PWYNT SBARDUNO FFURFIOL**

*h.y. 15 diwrnod neu fwy / 4 neu fwy o absenoldeb / patrwm annerbyniol*

**CYFARFOD RHEOL PRESENOLDEB - CAM CYNTAF**

- Anfon gwahoddiad gyda 7 diwrnod o rybudd ysgrifenedig
- Mae gan y gweithiwr hawl i ddod â rhywun gyda ef
- Archwilio'r rhesymau a rhoi cymorth i wella

**Gosod cyfnod adolygu**

- O ddyddiad y cyfarfod
- Dim llai na 2 fis a dim mwy na 3 mis
- Hysbysu'n ffurfiol y gall diffyg gwelliant gael effaith niweidiol ar gyflogaeth y gweithiwr yn y dyfodol

Os na chyflawnir presenoldeb boddhaol a byddwch yn cyrraedd trothwy ffurfiol yn ystod y cyfnod adolygu, byddwch yn symud i'r ail gam rheoli absenoldeb ffurfiol o'r weithdrefn hon.

Os cyflawnir presenoldeb boddhaol ac os nad oes unrhyw sbardun yn ystod y cyfnod adolygu hwn, → bydd y broses ffurfiol yn dod i ben i'r gweithiwr (bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig).

Ar ôl adolygiad llwyddiannus, mae cyfnod monitro 4 mis arall yn cael ei osod (bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig).

Os na cheir absenoldeb pellach a bod gwelliant derbyniol, dylid dod â'r broses Rheoli Absenoldeb ffurfiol i ben

Os cyrhaeddir pwynt sbarduno pellach yn ystod y cyfnod monitro - dylid cynnal Cyfarfod Rheoli Presenoldeb (Cam Cyntaf) ar unwaith.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

# CYFARFOD RHEOLI PRESENOLDEB FFURFIOL (AIL GAM)

**DIM GWELLIANT / CYRRAEDD PWYNT SBARDUNO AR ÔL CAM CYNTAF Y CYFARFOD RHEOLI PRESENOLDEB**

## Cyfarfod Rheoli Presenoldeb - Ail Gam

- Anfon gwahoddiad gyda 7 diwrnod o rybudd ysgrifenedig
- Mae gan y gweithiwr hawl i ddod â rhywun gyda ef
- Archwilio'r rhesymau a rhoi cymorth i wella
- Atgyfeiriad posibl at Iechyd Galwedigaethol

## Gosod cyfnod adolygu

- O ddyddiad y cyfarfod
- Dim llai na 2 fis a dim mwy na 3 mis
- Hysbysu'n ffurfiol y gall diffyg gwelliant gael effaith niweidiol ar gyflogaeth y gweithiwr yn y dyfodol a symud ymlaen i'r Trydydd Cam

Os na chyflawnir presenoldeb boddhaol a byddwch yn cyrraedd trothwy ffurfiol yn ystod y cyfnod adolygu, byddwch yn symud i'r trydydd cam rheoli absenoldeb ffurfiol o'r weithdrefn hon.

Os cyflawnir presenoldeb boddhaol ac os nad oes unrhyw sbardun yn ystod y cyfnod adolygu hwn, → bydd y broses ffurfiol yn dod i ben i'r gweithiwr (bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig).

Ar ôl adolygiad llwyddiannus, mae cyfnod monitro 4 mis arall yn cael ei osod (bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig).

Os na cheir absenoldeb pellach a bod gwelliant derbyniol, dylid dod â'r broses Rheoli Absenoldeb ffurfiol i ben.

Os cyrhaeddir pwynt sbarduno pellach yn ystod y cyfnod monitro, dylid cynnal Cyfarfod Rheoli Presenoldeb (Ail Gam) ar unwaith.

# CYFARFOD RHEOLI PRESENOLDEB FFURFIOL (TRYDYDD CAM)

**DIM GWELLIANT /CYRRAEDD PWYNT SBARDUNO AR ÔL AIL GAM Y CYFARFOD RHEOLI PRESENOLDEB**

*Dylid ystyried yr hanes absenoldeb llawn (hyd at 3 blynedd), yr adroddiad Iechyd Galwedigaethol diweddaraf ac unrhyw ffactorau lliniarol*

**Cyfarfod Rheoli Presenoldeb - Trydydd Cam**

- Anfon gwahoddiad gyda 7 diwrnod o rybudd ysgrifenedig
- Mae gan y gweithiwr hawl i ddod â rhywun gyda ef
- Archwilio'r rhesymau a rhoi cymorth i wella

Os bydd sbardun pellach ac nad oes gwelliant yn ystod y cyfnod adolygu neu gyfnod monitro 4 mis, → dylid cynnal Cyfarfod Rheoli Presenoldeb (Trydydd

**PENDERFYNIAD**

**Diswyddo - Rhybudd wedi'i roi (ar sail afiechyd)**

**Hawl i Apelio**

*O fewn 14 diwrnod calendr i ddyddiad y canlyniad*

| | |
|---|---|
| *Apêl Cadarnhawyd* | *Apêl Gwrthodwyd* |

**PENDERFYNIAD**

- Dylid gosod y cyfnod adolygu o ddyddiad y cyfarfod
- Dim llai na 2 fis a dim mwy na 3 mis

Os cyflawnir presenoldeb boddhaol ac os nad oes unrhyw sbardun yn ystod y cyfnod adolygu hwn, → bydd y broses ffurfiol yn dod i ben i'r gweithiwr (bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig).

Ar ôl adolygiad llwyddiannus, mae cyfnod monitro 4 mis arall yn cael ei osod (bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig).

Os na cheir absenoldeb pellach a bod gwelliant derbyniol, dylid dod â'r broses Rheoli Absenoldeb ffurfiol i ben.